
# Gwasanaeth Brys Allan o Oriau Gwasanaethau Cymdeithasol

## De Ddwyrain Cymru




# 0800 328 4432

Cyngor monmouthshire County Council sir fynwy

Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent County Borough Council

Newport City Council Cyngor Dinas Casnewydd

Caerphilly County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Torfaen County Borough Bwrdeistref Sirol Torfaen

7839-57

**Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwasanaeth brys y tu allan i oriau swyddfa arferol. Mae'r gwasanaeth hwn ond yn delio â sefyllfaoedd brys nad sy'n gallu aros tan y diwrnod gwaith nesaf.**

**Ffoniwch ni os ydy:**

- plentyn neu berson ifanc angen eu diogelu rhag niwed ar frys.
- rhiant, gofalydd maeth neu blentyn angen help, cyngor neu gymorth ar frys.
- gofalydd neu oedolyn sydd mewn perygl (y rheiny sydd â phroblemau iechyd y meddwl, anableddau corfforol neu ddysgu neu bobl hŷn) angen help ar frys.

**Nid ydym yn gallu helpu os:**

- gall y sefyllfa aros tan y diwrnod gwaith nesaf, heb risg o niwed.
- ydyw'n ddiwrnod gwaith. Nid ydym ar gael felly cysylltwch â'ch Gwasanaethau Cymdeithasol lleol.
- ydyw'n argyfwng meddygol – rhaid i chi ffonio'ch meddyg neu ambiwlans.

## PWY SY'N GALLU DEFNYDDIO'R GWASANAETH?

- Pobl sy'n byw ym mwrdeistrefi Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen, sydd angen help ar frys gan Wasanaethau Cymdeithasol, os ydynt eisoes yn derbyn ein gwasanaethau neu beidio.
- Unrhyw un sy'n galw ar ran rywun arall, os ydyw'n broffesiynolwr, perthynas, ffrind neu ofalydd.

## PRYD YDY'R GWASANAETH AR GAEL?

Mae'r gwasanaeth brys allan o oriau yn gweithredu pan fo swyddfeydd Gwasanaethau Cymdeithasol eraill ar gau. Gallwch ond ei gysylltu ar y ffôn neu ffacs.

**Gallwch gysylltu â ni:**

Dydd Llun – Dydd Iau 5pm-8.30am
Dydd Gwener 4.30pm tan 8.30am y Dydd Llun canlynol
Gwyliau'r Banc a penwythnos 24awr

## PWY YDYM NI?

Darperir y gwasanaeth brys gan weithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm sy'n gymwys ac sydd wedi'u hyfforddi'n addas.

Mae'r gwasanaeth brys yn gweithio'n agos â'r gwasanaethau dydd. Mae pob galwad yn cael ei gofnodi ac mae'r manylion rydych yn rhoi i'r gwasanaethau brys yn cael eu pasio ymlaen i'r tîm gwaith cymdeithasol dydd priodol y diwrnod canlynol.

## SUT FYDD Y GWASANAETHAU YN DELIO Â'M HYMHOLIAD?

Mae'r gwasanaeth yn blaenoriaethu ymholiadau ar sail y wybodaeth yr ydych yn ei darparu felly mae'n bwysig i chi roi gymaint o wybodaeth ag sy'n bosib.

Mae cyfrinachedd yn bwysig i ni. Rydym ond yn rhoi gwybodaeth i bobl sydd ei angen ei gael i ddelio â sefyllfa argyfwng.

Os nad ydym yn cytuno bod angen gwasanaethau argyfwng arnoch, fe fyddwn yn rhoi cyngor i chi ar ble y gallwch gael help.

## CWYNION

Os oes gennych unrhyw gŵynion am y gwasanaeth rydych yn ei dderbyn gan y gwasanaeth brys allan o oriau, cysylltwch â'ch Swyddog Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol lleol i ddarganfod mwy am y dull cwyno.

## SUT YDW I'N CYSYLLTU Â'R GWASANAETH BRYS ALLAN O ORIAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL?

**Ffôn: 0800 328 4432**
**Ffacs: 01495 767057**

**Am unrhyw wasanaeth ar frys y cyngor nad sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ffoniwch:**

| | |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 01495 311556 |
| Caerffili | 01443 875500<br>(Textphone 01443 863183) |
| Sir Fynwy | 01594 836833 or 832845 |
| Casnewydd | 01633 214222 |
| Torfaen | 01495 762200 |

**Mae'r Gwasanaeth Brys Allan o Oriau ar gyfer Argyfyngau Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig pan fo swyddfeydd ar gau.**

**Am argyfyngau'r cyngor eraill, ffoniwch y rhif perthnasol ar y dudalen olaf. Am yr heddlu neu ambiwlans, ffoniwch 999.**